| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **25 MEDI 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO –<br>FRESHWAY EXPRESS, 319 STRYD FAWR, BANGOR, LL57 1YA** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

**MANYLION Y CAIS**

Derbyniwyd cais am drwydded eiddo ar gyfer 319 Stryd Fawr, Bangor ar 5 Awst 2014 oddi wrth Mr Christopher O'Neal, asiant ar ran yr ymgeisydd Mr Ahmad Koujan. Gwelir copi o'r ffurflen gais yn Atodiad 1.

Mae'r ymgeisydd yn disgrifio'r eiddo fel 'Fast Food Takeaway'. Mae'r cais ar gyfer darparu lluniaeth yn hwyr y nos, dan do ac yn yr awyr agored, ar yr amseroedd canlynol:-

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 23:00-02:30 |
| Dydd Mawrth | 23:00-02:30 |
| Dydd Mercher | 23:00-02:30 |
| Dydd Iau | 23:00-03:00 |
| Dydd Gwener | 23:00-03:30 |
| Dydd Sadwrn | 23:00-03:30 |
| Dydd Sul | 23:00-02:30 |

Yr amseroedd fydd yr eiddo ar agor i'r cyhoedd yw:-

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 09:00-02:30 |
| Dydd Mawrth | 09:00-02:30 |
| Dydd Mercher | 09:00-02:30 |
| Dydd Iau | 09:00-03:00 |
| Dydd Gwener | 09:00-03:30 |
| Dydd Sadwrn | 09:00-03:30 |
| Dydd Sul | 09:00-02:30 |

Mae'r camau mae'r ymgeisydd yn bwriadu dilyn i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu wedi ei rhestri yn adran M o'r cais. Maent yn cynnwys gosod camerâu teledu cylch cyfyng y tu mewn i'r adeilad; cyflogi goruchwylwyr drysau ar ddydd Gwener, dydd Sadwrn a Gwyliau Banc o hanner nos tan yr amser cau; glanhau unrhyw sbwriel tu allan i'r eiddo a chyfyngu mynediad i blant o dan 16 oed o 11:30y.h. ymlaen oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn.

**SYLWADAU**

Nid oedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn dymuno rhoi unrhyw sylwadau ar y cais. Ni dderbyniwyd sylwadau oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru na Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd. Nid oedd y Gwasanaeth Cynllunio yn gwrthwynebu'r cais. Gwnaethpwyd cadarnhau bod caniatâd cynllunio wedi ei ganiatáu ar gyfer y safle i weithredu fel eiddo 'bwyd poeth i'w fwyta allan' a gwnaethpwyd cadarnhau'r amseroedd mae'r eiddo yn cael bod ar agor i gwsmeriaid.

Derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais oddi wrth Gyngor Dinas Bangor. Gwelir Atodiad 2. Mae eu pryderon yn ymwneud a'r cynnydd mewn sŵn ac aflonyddwch, y cynnydd mewn gwaredu sbwriel a'r lefel o drosedd ac anrhefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol fydd eiddo lluniaeth hwyr y nos ychwanegol yn ei gael ar yr ardal. Mae Cyngor Dinas Bangor o'r farn bod pwynt dirlawnder wedi ei gyrraedd yn yr ardal yma o Fangor, ac yn unol â dogfen Polisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd, dylai 'Polisi Dirlawnder' cael ei fabwysiadu ar gyfer y rhan hon o Fangor.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r is-bwyllgor ystyried y cais i amrywio'r drwydded eiddo yn unol ag amcanion Deddf Trwyddedu 2003.